# Gweddïau Adfent a Nadolig

Pan fyddwn ni'n deffro ar fore'r Nadolig, sut fyddwn ni'n wahanol? Sut fydd yr Adfent wedi'n siapio ni a'n byd? Sut fydd ein gweddïau yn ystod yr Adfent yn ein helpu i ail-ffocysu ar ôl y trafodaethau hinsawdd yn COP26 a'n paratoi ar gyfer y rhan nesaf o'r daith?

Gadewch inni ddisgwyl gyda'n gilydd am yr un sy'n dod atom.

Am fwy o wybodaeth am apêl Nadolig Cymorth Cristnogol ewch i caid.org.uk/christmas

## Sul cyntaf yr Adfent

Rho dy bersbectif inni, Dduw,
Ar bopeth a fu ac a fydd,
Neu o leiaf ar yr hyn y gallwn ei ddirnad
Oddi fewn i ffiniau ein meddyliau brau,
Ond gyda thragwyddoldeb yn ein calon.

Rho dy bersbectif inni, Dduw,
Gyda'r gras a'r dewrder i wrando a disgwyl.
I wylio a gweddïo, i sefyll a chodi'n llais,
I alw allan a chryfhau
Yr alwad am gyfiawnder trwy'r holl fyd.

Rho dy bersbectif inni, Dduw,
Ar benderfyniadau wnaed a dewrder a ohiriwyd.
Dadorchuddia'r gonestrwydd oddi fewn i'r rhethreg,
Galw'r hunanfoddhaol ymffrostgar i  ostyngeiddrwydd
Er mwyn cyflawni dy ewyllys yma ar y Ddaear.

Rho dy bersbectif inni, Dduw,
Ar dy holl greaduriaid a chreadigaeth.
Dy gariad am y byd
Yn ymestyn o breseb llwm mewn stabl
I ehangder achubol y groes.
Amen.

## Ail Sul yr Adfent

'Llais yn gweiddi'n uchel yn yr anialwch.'
Luc 3:4
Ym mhymthegfed flwyddyn teyrnasiad yr Ymerawdwr Tiberiws,
Pan oedd Pontius Peilat yn llywodraethwr Jwdea
A Herod yn is-lywodraethau Galilea,
A'i frawd Phillip yn Itwrea
a Trachonitis,
A Lysanias yn Abilene,
Yn ystod archoffeiriadaeth Annas a Caiaphas,
Daeth gair Duw i Ioan fab Sachareias
yn yr anialwch.

Dduw'r Adfent,
O'r holl lefydd a'r holl bobl
Dewisaist Ioan,
Mab Sachareias ddefosiynol ond amheus,
I gyhoeddi bedydd edifeirwch
Am faddeuant pechodau.

O'r holl safleoedd grym
A'r holl lefydd breintiedig,
Dewisaist yr anialwch
I fod yn fan trawsnewid,
Ble mae'r holl gysuron a'r gwrthdyniadau
Wedi ei tynnu i ffwrdd
A'r cyfan sy'n wir, yn cael ei ddadorchuddio.

Wrth inni edrych tua chanolfannau grym
Am y newid yr ydym yn dyheu amdano,
Helpa ni i beidio â cham osod ein gobaith,
Nac esgeuluso'r annisgwyl a'r annhebygol,
I wrthod yr anghonfensiynol a'r anghysurus
Nac osgoi'r gobaith yr ydym yn disgwyl
Ei ganfod mewn drewdod cynnes stabl.
Amen.

cymorth cristnogol

## Trydydd Sul yr Adfent

'"Felly, beth ddylen ni ei wneud?" gofynnodd y dyrfa.'

Luc 3:10

Rydym wedi edrych tuag at arweinwyr byd eang
I wneud y newid angenrheidiol
Dros ffyniant y blaned
A bywyd cyflawn ar gyfer y ddynoliaeth oll.
Ar yr adeg hon o ddisgwyliad yr Adfent
Unwn gyda'r tyrfaoedd,
Y casglwyr trethi a'r milwyr,
A gofyn yr hyn ofynnid yn aml i Ioan:

'Beth ddylen ni ei wneud?'

A chawn yr argraff, Dduw grasol,
Fod y dyrfa, y casglwyr trethi a'r milwyr,
Yn gwybod yn union be i'w wneud.
Doedd ymateb Ioan ddim yn syndod:
Byddai eu cydwybod wedi dweud wrthynt,
Ac yn y dyddiau hyn o ddisgwyl yr Adfent,
Wrth inni nesáu at stabl, yn gwylio'r seren,
Gofynnwn eto fel rhai o'n blaen:

'Beth ddylen ni ei wneud?'

Nid edrych yn unig at arweinwyr byd
Na disgwyl yn unig atebion systemig,
Nid cymryd dy ras yn ganiataol
Deuwn yn agos at dawelwch yr Adfent.
Yma yn nyfnder gaeaf hemisffer y gogledd
Ceisiwn bresenoldeb dy ymgnawdoliad
I'n hatgoffa ni beth ddylen ni ei wneud.

Felly, helpa ni, Dduw. Amen.

## Pedwerydd Sul yr Adfent

Wrth ddisgwyl amdanat ti
cododd merch ei llais
mewn dewrder a mawl,
mewn llawenydd a disgwyliad,
mewn gwrthwynebiad a brwydr.

Wrth ddisgwyl amdanat ti,
rho gnawd ar ein ffydd
i roi geiriau ar waith,
i alw am gydraddoldeb
i weithio dros gyfiawnder.

Wrth ddisgwyl amdanat ti,
bydded i'r isel gael eu codi,
i'r mathredig gael eu hadfer,
bydded i'r briwedig fod yn wydn,
a'r grymus fod yn gymedrol.

Wrth ddisgwyl amdanat ti,
llanwer ni gyda gobaith,
i ddweud ie wrth dy ewyllys,
i rannu ein rhoddion a'n hadnoddau,
i weithio gyda'n gilydd ar gyfer byd newydd.
Yn dy enw y gweddïwn. Amen.

## Gweddi Dydd Nadolig

'Ond roedd Mair yn cofio pob manylyn ac yn meddwl yn aml am y cwbl oedd wedi cael ei ddweud am ei phlentyn.'

Luc 2:19

Diolch iti, Dduw Ymgnawdoledig,
Am newydd da'r Nadolig.
Am y newydd sy'n chwalu ofn y dyfodol,
Newydd sy'n aflonyddu'r statws quo,
Sy'n dod â gobaith er gwaetha anobaith,
syfrdandod a rhyfeddod.
Am newyddion sy go iawn yn llawn parchedig ofn,
rhown ddiolch iti.
Bydded i'r Newydd Da hwn ddistewi pob newyddion arall heddiw.
Amen, a diolch a fo i Dduw.

cymorth cristnogol